# Cofnodion

## Pwyllgor Craffu ar Berfformiad – Pobl

Dyddiad: Dydd Mawrth, 9 Ebrill 2019

Amser: 10.00 am

Bresennol: Cynghorwyr D Williams (Cadeirydd), J Cleverly, H Thomas, C Townsend, J Watkins and S Marshall

Yn bresennol: Daniel Cooke (Cynghorydd Craffu), Lisa Davies (Swyddog Llywodraethu), James Harris (Strategic Director - People) and Sally Ann Jenkins (Strategic Director - Social Services)

Ymddiheuriadau: Cynghorwyr K Critchley, R Hayat, T Watkins and J Richards

---

1 **Datganiadau o Fuddiant**

Dim

2 **Cofnodion**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Chwefror 2019 fel rhai cywir.

3 **Pontio o Wasanaethau Cymdeithasol Plant i Oedolion - Diweddariad Llafar**

Yn bresennol:

- James Harris –Cyfarwyddwr Strategol - Pobl,
- Sally Anne Jenkins - Pennaeth Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc

Rhoddodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc drosolwg cryn o drosi o Wasanaethau Plant i rai Oedolion, yn ôl cais Aelodau'r Pwyllgor Craffu. Esboniodd y Swyddog fod 4 grŵp o blant, yn y categorïau a ganlyn;

1) Plant gydag anghenion sylweddol, anabl, cyfuniad o ddibyniaethau corfforol a meddyliol; mae gan y plant hyn ofynion clir a diffiniedig, sy'n golygu y bydd y gofal a'r gefnogaeth y bydd arnynt eu hangen trwy gydol eu hoes yn cael eu darparu gan y Gwasanaethau Cymdeithasol.

2) Plant sy'n destun datganiad, plant sy'n gallu gwneud llawer, gallu mynychu'r ysgol gyda rhyw fath o gefnogaeth, ac o bosib yn nes ymlaen mewn bywyd allu mynd i'r coleg, dal rhyw fath o swydd a byw mewn cyfleuster byw gyda chefnogaeth fel oedolyn. Ni fydd cefnogaeth yn parhau i fyd oedolyn, a bydd yn amodol ar barhad y person ifanc mewn addysg.

3) Plant ag anghenion ychwanegol oedd yn derbyn gofal gan yr awdurdod. Grŵp bychan oedd hwn o ryw 4/5 y flwyddyn. Gall yr Awdurdod fod yn gyfrifol am yr unigolyn nes ei fod yn 25 oed.

4) Plant sy'n derbyn gofal ond sydd ag anghenion mwy heriol, na allant fyw mewn lleoliad preswyl, lle fel oedolyn y byddai'n anodd cwrdd â'u hanghenion, yn dod yn fwy heriol a bydd angen cefnogaeth tan 25 oed.

Esboniodd y Swyddogion, i'r plant hynny yng Nghategori 2, fu'n ddibynnol ar wasanaethau addysg a ddarperir gan yr Awdurdod, ac y daeth yn anodd i rieni ymdopi unwaith i'r gwasanaethau hynny ddod i ben. Yr oedd mwy o atebolrwydd ar yr Awdurdod oherwydd cyflwyno Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), ond nid y cyllid ychwanegol sydd ei angen i gwrdd â'r cyfrifoldebau hynny. Nid parhad syml tan 25 oed fyddai hyn; byddai'n cael ei dywys gan amgylchiadau unigol, a'r rhieni eisoes yn gofyn cwestiynau am lefel y gefnogaeth fyddai'n cael ei gynnig neu ei atal i bobl ifanc pan fyddant yn gadael addysg amser llawn.

Gofynnodd yr Aelodau y canlynol:

- Gofynnodd Aelod o'r Pwyllgor i'r Swyddogion a dderbyniwyd cyllid ychwanegol ar gyfer y cyfrifoldebau ADY ychwanegol, ac os felly, pa gynlluniau oedd ar gael ar gyfer y cyllid hwnnw. Esboniodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc y byddai unrhyw gyllid yn dod gan Lywodraeth Cymru, nid o raid i'r Awdurdod Lleol. Gallai'r cyllid ychwanegol gael ei ddarparu i sefydliadau addysg uwch a phellach. Nid oedd gwybodaeth ar hyn o bryd am y cyllid, ond cynhelir cyfarfodydd gyda'r holl randdeiliaid a Llywodraeth Cymru yn i drafod cynllunio ymhen 18 mis.

- Gofynnodd y Pwyllgor i'r Swyddogion gadarnhau a oedd y gefnogaeth a ddarparwyd gan yr Awdurdod yn y gorffennol wedi newid mewn unrhyw ffordd, o gymharu â'r pedwar categori sydd ar gael ar hyn o bryd. Atebodd y Swyddogion nad oedd lefel y gefnogaeth wedi gostwng, y bu newidiadau i'r gwasanaethau a heriau gyda modelau darpariaeth, ond nid oedd unrhyw wasanaethau wedi eu lleihau. Yr oedd cyllidebau allweddol wedi gorwario wrth ddarparu rhai gwasanaethau, ond yr oedd yr Awdurdod yn ymchwilio i ddulliau gwell a mwy cynaliadwy o gyflwyno gwasanaethau. Esboniodd y Swyddogion fod nifer y plant oedd yn disgyn i un o'r pedwar categori, a bod yr Awdurdod yn llawer mwy ymwybodol o ofynion y plant heddiw nag yn y gorffennol.

- Holodd Aelod sut yr oedd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael effaith ar drefniadau gweithio mewn partneriaeth yng Ngwent, yn enwedig wrth i bobl ifanc drosi o Wasanaethau Cymdeithasol Plant i Oedolion. Dywedodd y Swyddogion fod 22 awdurdod lleol Cymru yn yr un sefyllfa gyda'r trosi hwn. Mae gan bum awdurdod Gwent drefniadau da o ran gweithio mewn partneriaeth, ac y mae'r Gronfa Gofal Canolraddol yn caniatáu mwy o weithio mewn partneriaeth ar faterion iechyd a gofal cymdeithasol rhwng cyrff statudol. Esboniodd y Swyddogion fod Gwasanaethau Oedolion yn rhedeg Cynllun Cysylltwyr Cymunedol ledled Gwent, sydd yn cynnwys gweithio gyda phartneriaid tai cymdeithasol, ac yn derbyn swm bychan o arian. Y mae'r Awdurdod yn ymchwilio i bosibilrwydd rhedeg cynllun tebyg i'r Gwasanaethau Plant; cynllun a fyddai'n amlygu'r holl brosiectau a rhaglenni sydd ar gael i bobl ifanc. Ffordd arall yr oedd yr Awdurdod yn gweithio mewn partneriaeth i gefnogi'r bobl ifanc hyn oedd trwy ddatblygu tai gyda chefnogaeth ar y cyd â chymdeithasau tai lleol.

- Gofynnodd Aelod i'r Swyddogion gadarnhau cyfanswm nifer y plant yn y pedwar categori y mae Casnewydd yn gyfrifol amdanynt, ac a yw rhieni'r plant hynny yn

ymwybodol y bydd gofal/cefnogaeth yn awr yn dod i ben yn 25 oed. Cadarnhaodd y Swyddogion fod gan rieni gyfle i ymwneud a magwraeth eu plant lle bo hynny'n briodol. Mae'r Awdurdod yn gwneud llawer o waith gyda rhieni plant sy'n derbyn gofal i ail-gysylltu'r teuluoedd er mwyn cefnogi'r bobl ifanc i ddychwelyd adref, cyhyd a bod yr amgylchiadau wedi newid a'r risg i'r person ifanc wedi lleihau. Dywedodd y Swyddog eu bod yn ceisio ail-integreiddio person ifanc i'r teulu pan fydd tua 14 neu 15 oed.

Gallai pobl ifanc na all ail-gysylltu â'u teuluoedd dderbyn cefnogaeth gan yr Awdurdod nes eu bod yn 25 oed. Yr oedd y bobl ifanc hyn fel arfer wedi creu eu rhwydweithiau cefnogi eu hunain, trwy berthynas a sefydlwyd gyda gofalwyr maeth, cyfeillion, ac mewn rhai achosion, teuluoedd y maent hwy eu hunain wedi eu cychwyn.

- Yr oedd yr Aelodau yn teimlo y byddai mwy o angen am weithio mewn partneriaeth â'r trydydd sector, pan fydd y gefnogaeth a dderbynnir oherwydd bod y person ifanc mewn addysg yn dod i ben. Holodd yr Aelodau a oedd y bobl ifanc yn gymwys am fudd-dal Taliad Annibyniaeth Personol? Esboniodd y Swyddogion fod llawer o'r plant yn anghymwys i Daliadau Annibyniaeth Personol, a byddai angen edrych ar fudd-daliadau eraill am gefnogaeth. Cadarnhaodd y Swyddogion fod llawer o brosiectau yn y trydydd sector oedd yn targedu'r grŵp penodol o bobl ifanc a drafodir. Yr oedd y prosiectau trydydd sector hyn yn dibynnu ar gyllid, oedd yn ei gwneud yn anodd cynllunio at y dyfodol oherwydd yr ansicrwydd.

  Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion am fod yn bresennol.

4 **Rhaglen Gwaith Cychwynnol Blynyddol Drafft**

Yn bresennol: ○ Daniel Cooke
(Ymgynghorydd Craffu)

Cyflwynodd yr Ymgynghorydd Craffu y Drafft o Flaen-Raglen Waith i'r Pwyllgor thrafod pob eitem yn unigol gyda'r Aelodau, a thrafodwyd yr eitemau drafft a ganlyn ar gyfer yr agenda:

- Y Cynlluniau Gwasanaeth am y flwyddyn yn diweddu 2018/19 a chanol blwyddyn 2019/20. Dywedwyd wrth y Pwyllgor y byddai mwy o wybodaeth eleni am y cyllid a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r maes gwasanaeth hwn yn cael ei gynnwys yn y cynllun gwasanaeth. Atgoffwyd y Pwyllgor, oherwydd y newidiadau yn y modd yr oedd data o ysgolion yn cael ei ddefnyddio gan gyrff lleol a rhanbarthol, y byddai llai o dargedu a mesuriadau ar gael i Addysg.

- Strategaeth Gofalwyr CDC 2019 – 2022 oedd yr eitem nesaf yn y drafft o Flaen-Raglen Waith Flynyddol. Eitem oedd hon a gyfeiriwyd gan y Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion a Chymuned, a derbyniodd y Pwyllgor ef fel ychwanegiad yn eu cyfarfod blaenorol.

- Hysbyswyd yr Aelodau fod yr Adroddiad ar Blant sy'n Derbyn Gofal wedi ei gynnwys yn y drafft o raglen waith ar gais y Pennaeth Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc.

- Esboniodd yr Ymgynghorydd Craffu fod adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol wedi ei gynnwys yn Rhaglen Waith y Pwyllgor Craffu Perfformiad oherwydd eu gwybodaeth a'u profiad o graffu ar eitemau yn

ymwneud â'r gwasanaethau cymdeithasol. Bu'r adroddiad yn hanesyddol dan y Pwyllgor Trosolwg a Rheoli Craffu, ond yr oedd y Swyddogion wedi penderfynu y gallai'r Pwyllgor Pobl roi her fwy sylweddol i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

- Yr oedd y Strategaeth Prydau Ysgol am Ddim wedi ei chynnwys ar gais y Swyddog Addysg, a dywedwyd wrth y Pwyllgor y byddai'r adroddiad hwn yn gosod allan yr hyn y byddai'r Cyngor yn wneud i wella deilliannau pobl ifanc sy'n derbyn Prydau Ysgol am Ddim.

- Yr oedd Strategaeth Comisiynu Pobl Hŷn yn bwnc a gyfeiriwyd gan Graffu ac a dderbyniwyd gan y Pwyllgor mewn cyfarfod blaenorol. Nod yr adroddiad yw amlinellu'r gwaith a wneir gan y Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol am gomisiynu gwasanaethau.

- Bydd yr adroddiad ar Berfformiad Anghenion Dysgu Ychwanegol /Lleoliadau Allsirol yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am berfformiad carfannau penodol o bobl ifanc. Esboniodd yr Ymgynghorydd Craffu wrth y Pwyllgor fod a wnelo'r adroddiad hwn a'r briffiadau a gawsai'r Pwyllgor y flwyddyn flaenorol am y bobl ifanc hynny gydag anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai a leolwyd allan o'r sir.

- Yr Argymhellion Monitro ar Weithredu Cynigion Cyllideb y Cabinet am 2018 – 19 oedd yr eitem nesaf a gyflwynwyd i'r Pwyllgor. Eitem flynyddol yw hon sy'n edrych ar weithredu'r cynigion cyllideb a dderbyniwyd yn ystod Cynigion Cyllideb y Cabinet y flwyddyn flaenorol. Deallodd y Pwyllgor gan mai dim ond un Cynnig Cyllideb a gawsant gan y Cabinet llynedd, y byddai'r eitem hon ar yr agenda yn cael ei gosod gydag eitem addysg arall.

- Yr olaf o'r eitemau posib ar  y drafft o Flaen-Raglen Waith Flynyddol oedd Cynigion Cyllideb y Cabinet am 2020/2021. Yr oedd hon yn eitem flynyddol ar agenda pob blwyddyn.

  Yr oedd y Pwyllgor yn hapus i dderbyn pob un o'r eitemau ar yr agenda trwy gydol y flwyddyn ac yn deall y byddai modd iddynt newid unrhyw eitem, gwahodd unrhyw un neu newid canolbwynt yr agenda yn ystod y rhan o'r cyfarfod sy'n ymwneud â'r Ymgynghorydd Craffu a'r Blaen-Raglen Waith.

  Esboniodd yr Ymgynghorydd Craffu bob un o'r adroddiadau gwybodaeth a gynhwyswyd yn yr adroddiad, a symud ymlaen i esbonio'r briffiad arall i'r Pwyllgor ar 'Gyllideb Gyfun A33 '. Yr oedd y briffio i fod i'w gynnal tua diwedd 2018 ond bu'n rhaid i ganslo. Caiff ei drefnu eto ar gyfer yr haf.

  Cytunodd y Pwyllgor ar y drafft o Atodlen Cyfarfodydd, gan gynnwys y cyfarfod ychwanegol ar 9 Gorffennaf 2019.

Daeth y cyfarfod I ben am 12.00 pm